# BWLETIN Y FARCHNAD HCC

RHAGFYR 2017

**Canlyniadau Arolwg Cymru ym Mehefin 2017**

**Cyhoeddwyd canlyniadau Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Mehefin 2017 yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Tachwedd. Roedd y canlyniadau'n dangos fod cyfanswm nifer y gwartheg, defaid a moch ar ddaliadau Cymru yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, a bod nifer y defaid yn uwch nag a fu ers dros ddeng mlynedd. Cafwyd cynnydd o 0.3 y cant i 1.14 miliwn yn nifer yr holl wartheg a lloi yng Nghymru. Cafwyd cynnydd o 2.3 y cant i 10.04 miliwn yn nifer yr holl ddefaid, sef y tro cyntaf er Mehefin 2002 i'r nifer fod dros 10 miliwn. Cafwyd cynnydd, hefyd, o 5.6 y cant, yng nghyfanswm nifer y moch, am fod mwy o foch pesgi; serch hynny, roedd dros 8 y cant yn llai o foch magu. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y ffigurau hyn.**

## Gwartheg

Mae canlyniadau Arolwg Mehefin yn dangos fod y fuches fagu (cig eidion a llaeth) – cyfanswm o 419,000 – yn draean o'r holl wartheg yng Nghymru. Dyma'r nifer gyfunol uchaf mewn degawd. Roedd nifer y gwartheg godro wedi cynyddu un y cant i 251,176, ond roedd nifer y gwartheg cig eidion a oedd wedi lloia wedi crebachu 0.2 y cant i 167,828. Dylid rhoi'r gostyngiad bach yn nifer y buchod cig eidion yn ei gyd-destun; mae'r niferoedd yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gymharol sefydlog, gyda dim ond ychydig bach o amrywiad. Mae'r cynnydd yn nifer y gwartheg llaeth yn dilyn patrwm a welwyd oddi ar 2011, sef cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'r cynnydd hwn ar adeg pan fo nifer y daliadau llaeth wedi gostwng yn dangos sut mae cynhyrchwyr yn y sector hwn wedi cynyddu nifer y gwartheg yn eu buchesi.


Mae'r wybodaeth yn yr hyn a gyhoeddwyd yn dangos y gallem weld mwy o wartheg o Gymru yn dod ar y farchnad yn ystod y misoedd nesaf oherwydd roedd nifer y gwartheg gwryw dros ddwy flwydd oed (39,016) wedi cynyddu 3.2 y cant. Hefyd, roedd mwy o wartheg llaeth a chig eidion dros ddwy flwydd oed heb unrhyw epil ar ddaliadau yng Nghymru. Roedd y cynnydd mwyaf, sef 1,900 (neu 4.6 y cant) yn y fuches gig eidion; roedd y cynnydd yn y fuches laeth yn 1.7 y cant. Nid yw'r ffigurau'n dangos faint o wartheg benyw fydd yn cael eu trosglwyddo i fuches fagu, ond oherwydd yr ansicrwydd yn dilyn refferendwm yr UE y llynedd, gall fod cynhyrchwyr o'r farn y dylid ystyried cynhyrchu cig eidion a llaeth am fod y DU yn mewnforio mwy o'r cynhyrchion hyn nag yw'n eu hallforio.

Gwelwyd cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yn niferoedd pob math o wartheg rhwng 13 a 24 mis oed yng Nghymru, gyda chynnydd o 0.5, 1.0 a 1.3 y cant, yn ôl eu trefn, yn niferoedd y gwartheg gwryw, gwartheg cig eidion benyw a gwartheg llaeth benyw. Roedd nifer y gwartheg rhwng 13 a 24 mis oed ar ddaliadau Cymru, sef 265,204, yn uwch nag a fu er 2006. Hwyrach oherwydd y prisiau gwael am laeth y llynedd, y gostyngiad mwyaf mewn unrhyw gategori gwartheg oedd y cwymp o 5.8 y cant yn nifer y gwartheg llaeth o dan flwydd oed. Byddai hynny'n cyfrif am bron 4,500 o loi, ond mewn gwrthgyferbyniad cafwyd cynnydd o 3,400 i 112,659 yn nifer y gwartheg benyw yn y fuches gig eidion.

## Defaid

Mae'r ystadegau'n dangos fod nifer y defaid ac wyn Nghymru wedi cynyddu i 10.04 miliwn erbyn mis Mehefin eleni, sef 2.3 y cant yn fwy nag yn y cyfnod blaenorol o 12 mis. Roedd y cynnydd hwn yng nghyfanswm yr holl ddefaid yn deillio o'r ffaith fod yna fwy o famogiaid ac ŵyn ar gyfer bridio yn y dyfodol yn y ddiadell genedlaethol wrth i niferoedd ostwng yn y categorïau eraill, sef defaid difa, hyrddod a defaid eraill (dros flwydd oed).

Roedd cyfanswm yr ŵyn ar y ffermydd ym mis Mehefin 4.89 miliwn, sef cynnydd o 3.9 y cant. Mae hyn yn batrwm a welir ar draws y rhan fwyaf o'r gwledydd datganoledig; fodd bynnag, cafwyd llai o ladd na'r llynedd ac felly mae'n bosib fod mwy o ŵyn yn cael eu cadw'n ôl tan y flwyddyn nesaf. Gwelwyd cynnydd o 1.1 y cant i bron 4.7 miliwn mewn niferoedd yn y ddiadell famogiaid magu, ac mae hyn yn awgrymu fod cynhyrchwyr wedi ymateb i prisiau gwell yn 2016 trwy gynyddu'r niferoedd yn eu diadelloedd. Gyda'r cynnydd yn nifer y mamogiaid a'r ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch trefniadau masnachu â'r UE yn y dyfodol, ymddengys fod cael cyfnod trosiannol yn hanfodol i'r sector, yn enwedig o gofio bod y DU yn dibynnu ar y math hwn o farchnad ar gyfer allforion cig oen.





## Moch

Ar 01 Mehefin 2016 roedd 24,515 o foch yng Nghymru. Mae'r ffigurau'n dangos fod y genfaint fagu wedi gostwng i ychydig dros 3,500 o foch, sef y nifer isaf oddi ar 2008. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 8.4 y cant yn nifer yr holl foch pesgi ar ddaliadau yng Nghymru. Mae'r gwrthgyferbyniad bychan yn y niferoedd yn awgrymu naill ai fod yr hychod sy'n cael eu cadw yn fwy cynhyrchiol neu fod rhai cynhyrchwyr o bosib wedi penderfynu ychwanegu at eu hincwm o'r fferm trwy arallgyfeirio i unedau magu a phesgi.

# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Mae prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr wedi gwella ar y cyfan yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i anifeiliaid ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd gael eu prynu. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 09 Rhagfyr roedd y pris cyfartalog ar gyfer anifeiliaid dethol yn 208.7c/kg. Mae'n bris anarferol o uchel, yn fwy na thebyg oherwydd y sioeau a'r arwerthiannau Nadolig sy'n digwydd yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r pris ar hyn o bryd bron 10c yn uwch nag oedd y pris cyfartalog yr wythnos flaenorol, sy'n adlewyrchu dylanwad y sioeau Nadolig. Yn ystod yr wythnos flaenorol yn diweddu 02 Rhagfyr roedd y pris cyfartalog yn 199.0c/kg, sef tua 11c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016, ac mae'n batrwm a welwyd drwy gydol y misoedd diwethaf. Oddi mewn i'r pris cyfartalog o 199.0c/kg, roedd y pris am fustych yn 193.9c/kg, sef 3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Cafwyd mwy o gynnydd ym mhrisiau heffrod wrth i'r pris cyfartalog godi 5.4c i 208.9c/kg. Yr unig gategori gwartheg dethol a welodd ostyngiad yn y pris yn ystod yr wythnos yn diweddu 02 Rhagfyr oedd y categori teirw ifainc, lle cwympodd y pris hanner ceiniog i 188.8c/kg.

Cafwyd cynnydd yn y fasnach pwysau marw ym mhob un o dri chategori gwartheg dethol yn ystod yr wythnos, wrth i nifer yr anifeiliaid a oedd ar werth amrywio rhwng y gwahanol gategorïau. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 02 Rhagfyr cafwyd cynnydd o bron i geiniog i 360.9c/kg, yn y pris cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr. Hwn oedd y pris cyfartalog uchaf a gafwyd yn ystod y deufis diwethaf, wrth i broseswyr geisio gorffen eu prynu ar gyfer cyfnod y Nadolig. Roedd nifer y bustych ychydig dros 3% yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd y pris cyfartalog am heffrod, sef 361.9c/kg, yn gynnydd o 0.2c, ac roedd nifer yr heffrod, sef 6,800, yn 0.4% yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol. Cafwyd gostyngiad sylweddol o dros 10% yn nifer y teirw ifainc, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod y pris cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr wedi codi 0.7c i 341.5c/kg.

Roedd prisiau buchod difa ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr yn 107.7c/kg ar gyfer yr wythnos yn diweddu 09 Rhagfyr, sef 10c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Roedd pris cyfartalog buchod o deirw cig eidion yn 120.8c/kg, a phris gwartheg o deirw llaeth yn 95.3c/kg. Roedd y pris pwysau marw am fuchod difa yng Nghymru a Lloegr yn yr wythnos yn diweddu 02 Rhagfyr yn 227.8c/kg, sef ychydig yn is nag oedd yn yr wythnos flaenorol, wrth i'r niferoedd gynyddu bron 3%.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Gwelwyd ychydig o gynnydd tymhorol yn y fasnach ŵyn pwysau byw yn ystod wythnosau olaf Tachwedd a dechrau Rhagfyr; fodd bynnag, gostyngodd y prisiau fymryn yn ystod yr wythnos ddiweddaraf wrth i'r niferoedd gynyddu'n fawr. Yn yr wythnos yn diweddu 09 Rhagfyr, roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 167.2c/kg, sef 4c yn llai na'r cyfartaledd yr wythnos flaenorol. Roedd nifer yr ŵyn SQQ yn y marchnadoedd hynny sy'n cofnodi prisiau yn ystod yr wythnos ddiweddaraf yn 43% yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, gan roi cyfanswm o 30,189, a byddai hyn wedi bod yn ffactor pwysig yn y cwymp mewn prisiau o'r naill wythnos i'r llall. Felly, roedd y pris ychydig dros 4c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Dylid nodi fod gwahaniaeth sylweddol oddi mewn i'r SQQ yn y pris a dalwyd am tri chategori gwahanol o ŵyn – ysgafn (25.5kg-32.0kg), safonol (32.1kg-39.0kg) a chanolig (39.1kg-45.5kg) – er bod pob categori wedi dioddef gostyngiad wythnosol. Y pris cyfartalog ar gyfer ŵyn ysgafn oedd 150.4c/kg, safonol 167.6c/kg a chanolig 176.6c/kg, sy'n dangos y galw ar hyn o bryd am ŵyn SQQ trymion.

Mae'r fasnach ar gyfer ŵyn pwysau marw wedi dal i wella yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac ar hyn o bryd mae'r pris ychydig o dan 400c. Yn yr wythnos yn diweddu 09 Rhagfyr, roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 398.5c/kg, sef dros hanner ceiniog yn uwch na'r wythnos flaenorol. Mae hyn yn golygu fod y pris cyfartalog ychydig dros 15c/kg yn uwch nag oedd yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref. Felly, mae'r pris bron 8c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. wrth i allforwyr y DU ddal i fod yn gystadleuol ar y cyfandir oherwydd y gyfradd gyfnewid ffafriol.

Mae'r fasnach famogiaid difa wedi gwella ychydig yn ystod y mis diwethaf. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 09 Rhagfyr, roedd y pris yn £45.10 yr anifail, sef 20c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau ar hyn o bryd ychydig dros bunt y pen yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016, ac yn sylweddol is nag oeddynt ym mis Medi.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Mae prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) wedi dal i ostwng o'r naill wythnos i'r llall, sef patrwm a ddechreuodd ddiwedd Tachwedd. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben 25 Tachwedd, roedd y pris cyfartalog, sef 156.2c/kg yn 0.3c yn is na chyfartaledd yr wythnos flaenorol a 12c yn is na'r pris brig eleni ganol mis Awst. Er gwaethaf y cwymp diweddaraf, mae'r pris ar hyn o bryd yn 3c yn uwch na'r pris yr wythnos gyfatebol y llynedd ond, a'r ddwy flwyddyn ar fin cyDUyfarfod, ymddengys y bydd y prisiau'n gyfartal cyn bo hir.

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 02 Rhagfyr, cafwyd gostyngiad o dros geiniog i 152.0c/kg ym mhris y moch safonol (manyleb yr UE), sef y gostyngiad wythnosol mwyaf ers dechrau mis Hydref. Dyma'r bedwaredd wythnos ar ddeg yn olynol i'r pris hwn ostwng. Mae'r pris yn 0.7c yn unig yn uwch na'r pris yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, sef y premiwm lleiaf ers i brisiau fynd yn uwch nag oeddynt y flwyddyn flaenorol, ddechrau Awst 2016. Digwyddodd y gostyngiad diweddaraf hwn er gwaetha'r amcangyfrif fod llai o foch wedi eu lladd, ac mae'n pwysleisio'r pwysau sydd ar y sector ar hyn o bryd.

Wrth i bris moch pwysau marw ddal i ostwng, yr un yw hanes pris perchyll wrth i gynhyrchwyr ymateb i'r farchnad. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 02 Rhagfyr, roedd pris cyfartalog perchyll 30kg yn £59.92, sef dros £4.00 yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Dyma'r pris isaf am berchyll o'r pwysau hwn ers diwedd Hydref 2016. Yn ystod yr un wythnos, roedd y pris cyfartalog ar gyfer perchyll 7kg yn £40.20, sef £1 yn is nag yn yr wythnos flaenorol.